24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Please contact us in Welsh or English.
Cysylltwch â ni'n Gymraeg neu'n Saesneg.

Y Cynghorydd Emlyn Dole
Arweinydd
Cyngor Sir Caerfyrddin
Neuadd y Sir
Rhiw'r Castell
Caerfyrddin
SA31 1JP

**Cyfeirnod:** 270A2017-18

**Dyddiad cyhoeddi:** 30 Tachwedd 2017

Annwyl Gynghorydd Dole

# Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Sir Caerfyrddin 2016-17

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau sy'n ymwneud â chyflwyno adroddiadau ariannol

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a

- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 29 Medi 2017, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor a Chronfa Bensiwn Dyfed. Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r datganiadau ariannol wedi'i gwblhau ar yr un dyddiad. Mae fy adroddiad a'm tystysgrif wedi'u cynnwys yn y Datganiad Cyfrifon.

Hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor Archwilio am y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 29 Medi 2017, a chyflwynwyd adroddiad manylach wedyn.

## Rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau ond mae lle i'r Cyngor wneud rhagor o welliannau o hyd

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i brofi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau yn ei Adroddiad Gwella Blynyddol 2016-17.

## Nid yw'r gwaith a wnaed gennyf hyd yma yn ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar y cyfrifon na systemau ariannol allweddol

Mae'r Cyngor wedi cymryd nifer o gamau i wella'r broses o reoli grantiau dros nifer o flynyddoedd ac mae rhai o'r camau hyn bellach yn esgor ar welliannau. Ceir rhai meysydd o hyd lle mae angen i'r Cyngor wella ei drefniadau ardystio grantiau.

Dangosir y prif feysydd lle'r oedd angen gwneud gwelliannau isod:

- peidio â chydymffurfio â rheolau caffael y Cyngor ei hun;
- dyfarnu cyllid i drydydd partïon a'r gwiriadau dilynol bod arian grant wedi'i wario yn unol â thelerau ac amodau'r cynllun; a
- tystiolaeth ategol i gadarnhau eitemau cymwys o wariant yn yr hawliad

Rwyf wedi dechrau ar fy archwiliad o grantiau 2016-17 a byddaf yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau'r gwaith hwn ar ddechrau 2018 pan fydd y rhaglen o waith ardystio wedi'i chwblhau.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2016-17 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yn y Cynllun Archwilio Blynyddol.

Yn gywir



**Richard Harries**
**Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

cc. Mark James, Prif Weithredwr
Chris Moore, Prif Swyddog Ariannol